

Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru - Cofnodion

Dydd Iau, 29 Medi 2025 15:00-16:00 MS Teams

Mynychwyr

Gweinidogion Llywodraeth Cymru

Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai –
Cadeirydd

Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyng. Lis Burnett (Bro Morgannwg)

Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)

Y Cyng. Dimitri Batrouni (Casnewydd)

Y Cyng. Paul Griffiths (Sir Fynwy)

Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)

Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)

Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/ Llywodraeth Leol

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLILC

Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC

Nathan Gardner – Rheolwr Cyllid

Swyddogion Llywodraeth Cymru (ac eithrio arsylwyr)

Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Chynllunio

Clare Blake – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi'r Dreth Gyngor

Ben Crudge – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Ardrethi Annomestig

Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth
Leol

Emma Smith – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol

Freya Gregory – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol – (Cofnodion)

Elin Rowlands – Trysorlys Cymru, Pennaeth Cyflawni'r Gyllideb

Nia Webb – Ysgrifennydd Preifat

Andrew Wagstaff – Ysgrifennydd Preifat

Ymddiheuriadau

Y Cyng. Darren Price (Sir Gaerfyrddin)

Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)

Y Cyng. Charlie McCoubrey (Conwy)

Jane Thomas – S151 Cyngor Powys (Ysgrifennydd Cymdeithas Trysoryddion
Cymru)

Lisa Hayward – Swyddog Polisi Cyllid (Refeniw a Budd-daliadau)

Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i'r aelodau am fynychu. Cytunodd y grŵp i ddefnyddio Microsoft Copilot i helpu swyddogion i ddrafftio'r cofnodion ar gyfer y cyfarfod hwn.

Eitem 2: Rhagolygon Ariannol Llywodraeth Leol

2. Cyflwynodd y Cyngorydd Anthony Hunt yr eitem gyntaf, gan nodi bod Llywodraeth Leol yn wynebu pwysau o £1.6 biliwn dros y tair blynedd nesaf, a £560 miliwn yn 2026-27.
3. Cyflwynodd Jon Rae Bapur Un a oedd yn rhoi crynodeb o arolwg o drysoryddion awdurdodau lleol a gynhaliwyd dros yr haf. Mae'r arolwg yn cyfuno cynlluniau ariannol tymor canolig yr awdurdodau gyda gwybodaeth gan wasanaethau tân ac achub. Tynnodd Jon Rae sylw at y ffaith bod proffil y pwysau ariannol dros y tair blynedd nesaf yn uwch na'r disgwyl, gyda £560 miliwn ar gyfer 2026-27, £486 miliwn ar gyfer 2027-28, a £512 miliwn ar gyfer 2028-29. Priodolwyd y pwysau i gostau cyflogau a galw. Tynnodd yr arolwg sylw hefyd at orwariant sylweddol a ragwelir yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2025-26, sef cyfanswm o oddeutu £184 miliwn oherwydd y galw yn ystod y flwyddyn. Nododd Jon y byddai adroddiadau manwl ar ysgolion ac addysg, a gofal cymdeithasol yn cael eu cynhyrchu yn ystod yr wythnosau nesaf gan fod pwysau yn y meysydd hyn yn gymhleth. Pan fyddai'r adroddiadau hyn ar gael, byddent yn cael eu rhannu gyda'r Gweinidogion a'r swyddogion priodol.
4. Tynnodd Dr Chris Llewelyn sylw at y gwahaniaeth rhwng rhagfynegiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) o chwyddiant o 2%, ac amcangyfrifon Llywodraeth Leol a oedd yn nes at 4.8%. Tynnodd Dr Llewelyn sylw hefyd at yr effeithiau posibl ar y dreth gyngor a'r gostyngiad posibl yn nifer y swyddi, fel yr amlinellir yn yr adroddiad (paragraff 98). Eglurodd Dr Llewelyn, bod CLILC, mewn ymateb i'r angen i sicrhau cytundeb ar gyfer cyllideb Cymru, wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol gyda grwpiau gwleidyddol, ac wedi ysgrifennu at holl Aelodau'r Senedd ac arweinwyr grŵp yn eu hannog i ymgysylltu'n gadarnhaol â grwpiau eraill. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd gweithio'n agos gyda phartneriaid, gan gynnwys lloïo Llywodraeth y DU a phartneriaid sector cyhoeddus.
5. Diolchodd y Cyng. Anthony Hunt i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg am eu dull gweithredu agored, a phwysleisiodd bwysigrwydd gweithio ar y cyd i oresgyn yr heriau presennol. Tynnodd y Cyng. Hunt sylw at yr angen i gynghorau bennu cyllideb gyfreithiol a chytbwys erbyn mis Mawrth, er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol ac effeithiau 15 mlynedd o gynni. Rhybuddiodd y Cyng. Hunt am y posibilrwydd o gau gwasanaethau, colli swyddi, codi'r dreth gyngor, a chyhoeddi hysbysiadau adran 114 os na wneir cynnydd, gan annog ymdrechion pellach i wella'r sefyllfa ariannu.

Cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid – 29 Medi 2025 - Cofnodion

6. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i CLILC am y papur, gan groesawu trafodaeth gan y grŵp.
7. Mae'r grŵp yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â'r dyddiad cau ar 10 Mawrth ar gyfer pennu'r gyllideb statudol a'r dreth gyngor. Mynegwyd pryderon am yr effeithiau posibl pe na bai cyllideb Cymru yn cael ei phennu, ac y byddai hynny'n arwain at gyllideb o 75% ar gyfer misoedd cyntaf 2026-27. Byddai hyn yn dinistrio gwasanaethau statudol. Pwysleisiodd y drafodaeth yr angen i Lywodraeth Cymru weithio ar draws pleidiau gwleidyddol i basio cyllideb, gan dynnu sylw at y canlyniadau difrifol i wasanaethau cyhoeddus a'r niwed posibl i enw da pawb sy'n gysylltiedig, pe na bai hyn yn digwydd. Cododd y grŵp bryderon hefyd na fyddai'r cyhoedd yn deall pam y byddai gwasanaethau'n cael eu colli pe bai cyllid yn cael ei atal.
8. Pwysleisiodd y Cyng. Mark Pritchard na fyddai aelodau etholedig bellach yn fodlon codi'r dreth gyngor y tu hwnt i lefelau chwyddiant, a bod diswyddiadau'n anochel os na fydd unrhyw gynnydd uchel yn y dreth gyngor i dalu'r costau hyn.
9. Rhannodd y Cyng. Griffiths enghreifftiau o wrthgyferbyniadau o ran y cyllid, a welwyd gan ei awdurdod, gyda thoriadau'n gorfod cael eu gwneud mewn rhai meysydd a chyllid ychwanegol annisgwyl, fel cyllid "balchder mewn lle" Llywodraeth y DU, yn cael ei ddarparu bryd hynny. Roedd o'r farn y byddai'r gwrthgyferbyniadau hyn yn gwaethygu'r niwed posibl i enw da'r cyngor, Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth y DU pe na bai setliad digonol yn cael ei ddarparu.
10. Ymhelaethodd y Cyng. Andrew Morgan ar yr heriau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol, gan gynnwys yr angen i ddod o hyd i gyllid cyfatebol ar gyfer rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif. Pwysleisiodd bwysigrwydd cynllunio ariannol cynaliadwy a'r angen i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r heriau hyn.
11. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i'r grŵp a CLILC am rannu eu disgrifiad o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, ac roedd yn gwerthfawrogi'n arbennig y gorwel tair blynedd a ddangosir yn y papur. Ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ei fod yn ffafrio pennu cyllideb gan ddefnyddio'r adnoddau llawn sydd ar gael, gan addo parhau i chwilio am lwybr gwleidyddol i ganiatáu hynny. Fodd bynnag, gan nad oedd unrhyw blaid wleidyddol arall wedi cynnig dod o hyd i ateb ar adeg y cyfarfod, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi cynnig cyllideb wedi'i hailddatgan, lle y byddai popeth sydd ar gael yn setliad 2025-26 yn cael ei gynnwys, ynghyd â chynnydd i gyfrif am chwyddiant. Sicrhodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y byddai'r ffigur ar gyfer chwyddiant yn seiliedig ar ragfynegiadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer chwyddiant ar 1 Ebrill 2026, a oedd, ar adeg y cyfarfod, yn 2%. Fodd bynnag, pe bai'r ffigur yn newid yn

Cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid – 29 Medi 2025 - Cofnodion

sgil adroddiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i Lywodraeth y DU ym mis Tachwedd, byddai'r gyllideb yn ceisio cyfrif am hyn.

12. Yna aeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg â'r grŵp trwy chwe mesur lliniaru sydd wedi'u cymhwyso neu sy'n cael eu harchwilio, yn nhrefn anhawster esgynnol.

- Gwneud y mwyaf o'r swm y gellid ei ailddatgan yn y gyllideb. Mae hyn yn cynnwys ailddatgan dyraniadau megis £30 miliwn ar gyfer grant trawsnewid llwybrau gofal, £30 miliwn ar gyfer gofal plant, a £36 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cymorth Yswiriant Gwladol. Lle'r oedd y rhain yn ffrydiau cyllido blwyddyn sengl yn y setliad 2025-26, gallai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg eu hailddatgan i gynyddu cyllid ar gyfer llywodraeth leol.
- Cymhwyso'r cynnydd chwyddiant o 2% i'r grantiau penodol a chyfalaf yn ogystal â'r setliad craidd.
- Gwneud rhagdybiaeth ffafriol am incwm ardrethi annomestig yn y gyllideb, a fyddai'n cynyddu lefel y cyllid sydd ar gael i lywodraeth leol.
- Archwilio sut y gellid pennu llawr cyllido ar gyfer y setliad sydd ar ddod i sicrhau na fyddai unrhyw awdurdod yn disgyn islaw lefel ariannu benodol.
- Archwilio'r defnydd o ddiystyru statudol, tebyg i'r hyn sydd ar gael yn Lloegr, er mwyn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth bennu cyllidebau trwy roi gwariant o'r neilltu wrth bennu eu cyllidebau a'u lefelau treth gyngor, a thrwy hynny ohirio'r effaith ariannol. Roedd hwn yn un o'r mesurau lliniaru mwyaf dadleuol a archwiliwyd, gan y byddai'n ateb tymor byr gyda chanlyniadau hirdymor posibl. Fodd bynnag, nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei ddiystyru oherwydd difrifoldeb y sefyllfa.
- Cynyddu cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol ar gyfer rhai awdurdodau yn 2025-26, pe bai tanwariant yn dod i'r amlwg yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Byddai hynny'n cryfhau cronfeydd wrth gefn rhai awdurdodau cyn pennu cyllideb ar gyfer 2026-27. Roedd hwn yn opsiwn ansicr iawn i'w archwilio gan na fyddai tanwariant yn y dyfodol yn hysbys tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

13. Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg drydedd ffordd bosibl o drafod gyda phleidiau gwleidyddol, a fyddai'n cynnwys cyllideb wedi'i hailddatgan ac eithrio llywodraeth leol, a fyddai'n derbyn swm ychwanegol yn y gyllideb derfynol. Cafodd y dull gweithredu hwn ei gynnig yn y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol gan gydweithwyr undebau llafur. Ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y byddai angen cefnogaeth pleidiau gwleidyddol eraill, ac anogodd aelodau'r grŵp i barhau i helpu i ddod o hyd i ateb addas ar gyfer y gyllideb hon.

14. Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg atgoffa'r grŵp y byddai'r gyllideb lefel uchel yn cael ei chyhoeddi ar 14 Hydref, gyda'r gyllideb fanylach yn dilyn ar 3 Tachwedd, nid oedd y dyddiad ar gyfer y setliad dros dro wedi'i bennu ar adeg y cyfarfod hwn.
15. Diolchodd aelodau'r grŵp i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg am y gwaith sy'n mynd i mewn i'r mesurau lliniaru hyn, gan sicrhau'r ddau Ysgrifennydd Cabinet eu bod yn awyddus i ddod o hyd i ateb. Awgrymodd y Cyng. Hunt y dylid rhannu'r mesurau lliniaru hyn â swyddogion S151 i leihau rhywfaint o'r risg yn y broses pennu cyllideb.
16. Er bod y grŵp yn gwerthfawrogi'r mesurau lliniaru sy'n cael eu harchwilio, fe wnaethant ailadrodd eu pryderon y byddai'r rhagolygon presennol ar gyfer cynnydd o 2% yn gadael awdurdodau lleol mewn sefyllfa anodd iawn. Cododd y Cyng. Griffiths pryderon hefyd y gallai'r mesurau lliniaru hyn leihau'r pwysau ar bleidiau gwleidyddol eraill i gytuno ar gyllideb sy'n defnyddio'r holl gyllid sydd ar gael, sef rhywbeth sy'n flaenoriaeth yn ei farn ef.
17. Tynnodd y Cyng. Batrouni sylw at bwysigrwydd arloesi digidol a mesurau ataliol eraill a allai leihau pwysau ariannol yn y dyfodol. Nododd fudo Data Cymru a phrosiectau penodol eraill yn ei awdurdod ei hun. Byddai'r Cyng. Batrouni yn awyddus i ofyn am farn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ar yr arloesi hyn a'r manteision i'r Senedd a'r awdurdodau lleol, ynghyd â'r posibilrwydd o gymorth ariannol i'r rhaglenni hyn.
18. Daeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai â'r cyfarfod i ben, gan gytuno y byddai'r ddau Ysgrifennydd Cabinet yn hapus i ystyried ymholiadau'r Cyng. Batrouni mewn gohebiaeth. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i'r grŵp am y drafodaeth ddeallus a'r adborth ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella canlyniadau'r gyllideb.

Cam gweithredu – Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i ymateb i ymholiadau'r Cyng. Batrouni mewn gohebiaeth.

Eitem 3: Unrhyw faterion eraill

19. Ni chodwyd unrhyw fater arall.